

Reslizumab ar gyfer trin asthma eosinoffilig nas rheolir yn ddigonol gan gorticosteroidau a gaiff eu hanadlu i mewn

4 Hydref 2017

Mae reslizumab (Cinqaero) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth ychwanegol bosibl ar gyfer asthma eosinoffilig difrifol mewn oedolion, os yw'r holl bethau canlynol yn gymwys:

- mae nifer yr eosinoffilau yn eu gwaed wedi bod yn uchel (400 cell/meicrolitr neu fwy) ac
- mae eu hasthma wedi gwaethygu'n sydyn o leiaf 3 waith dros y 12 mis diwethaf ac
- maent yn cymryd corticosteroidau mewn-anadlu dogn-uchel yn ogystal â chyffur arall.

Dim ond os yw'n gweithio'n ddigon da y gellir parhau i gymryd reslizumab ar ôl 12 mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael reslizumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich

teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Asthma UK](#), 0300 222 5800
- [Allergy UK](#), 01322 619898
- [Action Against Allergy](#), 0208 892 2711
- [Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint](#), 03000 030 555

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2644-2